

Cyfnawidfa Ddwyfol

“Ond dywedodd wrthyf, ‘Digon i ti fy ngras i; mewn gwendid y daw fy nerth i’w anterth.’” (adn. 9)

Beth am ddarlenn 2 Corinthiaid 12:1–10 ac yna myfyrio

Ddoe, buom yn sôn am y dyn yna a waredwyd oddi wrth alcoholiaeth. Efallai fod cwestiwn wedi codi yn dy feddwl: “Pam na all pawb sydd yn ildio i Iesu adnabod rhyddhad oddi wrth bethau sydd yn eu llethu?” Rwyf wedi cwrdd â nifer o bobl sydd yn dioddef o alcoholiaeth a brofodd dröedigaeth. Yn achos rhai ohonynt, fe fuont yn brwydro gyda’r broblem hon am flynyddoedd wedyn. Pam fod rhai yn cael eu rhyddhau mor fendigedig wrth iddyn nhw ildio i Grist ac eraill ddim yn adnabod y rhyddhad hwn? A ydi Duw yn dangos ffafriaeth oherwydd ei fod yn gwared rhai mewn eiliad ac eraill ond yn adnabod gwaredigaeth dros flynyddoedd?

Does na ddim ateb rhywyd i’r cwestiwn hwn, ond rwyf yn tybied fod ganddo rywbeth i’w wneud gyda stad meddyliol y person wrth iddyn nhw ddod at Iesu. Roedd y gŵr yr oeddwn yn cyfeirio ato ddoe wedi cyrraedd pwynt isel anghyffredin yn ei fywyd ac yn cydnabod fod grym ei ewylllys yn gwbl annigonol i ddelio gyda’r broblem yr oedd yn ei hwynebu. Ond fe ddaeth grym a nerth wrth iddo ildio i Grist. O brofiad, rwy’n gallu tystio i’r gwahanol raddau o ildio a welir pan ddaw pobl at Iesu. Mae rhai yn eu rhoi eu hunain iddo yn llwyr. Maent yn cyflwyno eu holl achos iddo ef mewn eiliad ac mae’r dröedigaeth yn rhyfeddol. Mae eraill yn fwy araf. Nid yw hyn yn golygu nad yw Crist wedi dod i mewn i’w bywyd, ond mae yna barwydydd eto i’w chwalu yn eu bywyd.

Ymadrodd o eiddo Martin Luther yw ‘Cyfnawidfa Ddwyfol’. Yr hyn a olyga i Luther wrth ddweud hyn oedd fod Crist yn medru aros ynom i’r graddau y mae pechadur yn barod i ildio iddo. Wrth inni roi ein hunain fwyfwy iddo ef, mae ef yn rhoi mwy ohono ei hun i ni. Mae mor syml â hynny, yn syml ac eto yn anodd iawn inni ddeall o bryd i’w gilydd.

Beth am fynd ymlaen i ddarlenn:

Eseia 53:1–12; 1 Cor. 1:26–30; 2 Cor. 5:17–21; Gal. 2:19–20

Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Beth oedd y Gyfnawidfa Ddwyfol?
2. Sut mae ei meddiannu?

Gweddi

O Dad, cynorthwya fi i edrych atat ti er mwyn adnabod y grym sydd yn rhoi cryfder i mi. Rhyddha fi oddi wrth y cryfder tybiedig sydd yn fy ngadael yn wan. Rwy’n hiraethu am brofi dy rym di. Cryfha fi, llywodraetha yn fy nghalon, a gwna hyn fwyfwy o ddydd i ddydd. Yn enw Iesu. Amen.